# Y PWYLLGOR CRAFFU – GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

## DYDD LLUN, 29AIN CHWEFROR, 2016

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, I.W. Davies, T.T. Defis, W.T. Evans, H.I. Jones, D.J.R. Llewellyn, E. Morgan a J. Williams

Y Cynghorydd J.D. James yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd B.A.L. Roberts
Y Cynghorydd M.J.A. Lewis yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd J.S. Lewis

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd J. Tremlett - Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd**:
Ms P. Owen, Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu ar gyfer Iechyd a Lles, Cyngor Sir Penfro

**Hefyd yn bresennol ar gyfer cofnod rhif 7:**
Ms S. Frewin – Uwch-reolwr Cynhwysiad Cymunedol
Ms S. Phillips – Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â Katelyn Mathews a Darren Pollet

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr J. Morgan | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol |
| Ms R. Dawson | - | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |
| Mr A. Maynard | - | Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| Mr L. Walters | - | Uwch-reolwr Cymorth Busnes |
| Mrs T. Lewis | - | Rheolwr y Trysorlys |
| Mrs A. Thomas | - | Uwch-gyfrifydd |
| Mr D. Eldred | - | Cyfrifydd y Grŵp |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mrs K. Evans | - | Swyddog Cymorth Aelodau |

**Y Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin : 10.00 a.m. – 12.35 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU A MATERION ERAILL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Caiach, K. Madge, B.A.L. Roberts, E.G. Thomas a J.S. Williams.

Cyfeiriwyd at y ffaith mai dyma'r cyfarfod olaf o'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd y byddai Anthony Maynard yn bresennol ynddo gan ei fod yn ymgymryd â swydd arall yn yr Awdurdod. Diolchwyd i Mr Maynard am ei gyfraniad i'r gwasanaeth, yr adran a'r Pwyllgor dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd H.I. Jones | Eitemau 7–9 | Merch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Y Cynghorydd M.J.A. Lewis | Eitemau 7–9 | Aelod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol. |
| Y Cynghorydd E. Morgan | Eitemau 7–9 | Merch yn nyrs seiciatrig. |

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cyfeiriwyd at y ffaith bod saith o bynciau trafod wedi'u rhestru i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf a theimlwyd y gellid gohirio un neu ddwy eitem hyd at y cyfarfod nesaf i ganiatáu digon o amser i drafod.

**PENDERFYNWYD**

**5.1 gohirio'r eitemau canlynol i'w hystyried yn y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 16eg Mai, 2016:-**

- **Yr Iaith Gymraeg yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn**
- **Safonau Maethol ar gyfer Pobl Hŷn;**

**5.2 bod yr eitemau sy'n weddill i'w hystyried yn y cyfarfod a gynhelir ar ddydd Llun, 18fed Ebrill, 2016 yn cael eu nodi.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW A CHYLLIDEB GYFALAF 2015/16

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y cyfnod

tan 31ain Rhagfyr 2015, ynghylch blwyddyn ariannol 2015/16.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth yn gorwario £404k o ran y Gyllideb Refeniw ddiwedd y flwyddyn ac y byddai -£231k o amrywiant net yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2015/16.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. GWERTHUSO'R "CYNLLUN MAWR "

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr H.I. Jones, M.J.A. Lewis ac E. Morgan oll wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai fanylion gwerthusiad o effeithiolrwydd y Cynllun Mawr.

Diben y strategaeth oedd sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn mwynhau'r un hawliau sylfaenol ag unrhyw un arall. Golygai hyn y byddent yn cael cynnig tai addas, yn cael cymorth i ddod o hyd i waith neu alwedigaeth ystyrlon arall oedd yn addas iddynt, yn gallu mwynhau amser gyda ffrindiau a theulu a chymryd rhan yn eu cymuned leol ac yn niwylliant y sir.

Ar sail tystiolaeth yr adroddiad, mae mwyafrif yr amcanion a osodwyd yn y Cynllun Mawr wedi'u gwireddu, a mwy. Ond roedd darpariaeth y gwasanaethau yn esblygu'n barhaus, a phwysig oedd sicrhau ein bod yn ymatebol i anghenion ein cwsmeriaid, ein statws economaidd newidiol a deddfwriaeth newydd, yn ogystal ag ymdrechu i efelychu arferion gorau.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Ms Sarah Phillips, Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, sef gwasanaeth eirioli a hyfforddi sy'n cynorthwyo oedolion sydd ag anawsterau dysgu. Yr oedd Katelyn Mathews a Darren Pollet yn bresennol gyda hi, a rhoesant gyfrif o'r gwasanaethau sy'n eu cynorthwyo. Pwysleisiasant yr hyn a weithia'n dda a'r hyn y gellid ei wella. Yn ôl Ms Phillips, gyda dyfodiad y Ddeddf Llesiant, roedd Sir Gaerfyrddin i'w llongyfarch am ei gweithdrefnau ymgysylltu a chynhwysiant, a oedd yn rhagorol.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Phillips a'r ddau ddefnyddiwr gwasanaeth am eu presenoldeb a'u cyfraniad a oedd yn llawn gwybodaeth ac a werthfawrogwyd yn fawr.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

</AI7>
<AI8>

## 8. PROSIECT GWEITHIWR CYMORTH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr H.I. Jones, M.J.A. Lewis ac E. Morgan oll wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes.]

Atgoffwyd y Pwyllgor y bu i Fwrdd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Sir Gaerfyrddin, ym mis Tachwedd 2014, gymeradwyo defnyddio Cyllid Gofal Canolraddol i symud ymlaen ar Brosiect Gweithiwr Cymorth Gofal Cymdeithasol a geisiai drosglwyddo tasgau'n ymwneud â gofal iechyd i weithwyr gofal

cymdeithasol mewn cartrefi gofal i bobl hŷn.  Canolbwyntiai'r prosiect ar gyfenwi gofal clwyfau anghymhleth yng Nghartref Gofal Preswyl Llys y Bryn.

Awgrymai'r dystiolaeth yn gryf yr arweiniodd y prosiect yn Llys y Bryn at enillion effeithiol ar fuddsoddiad o ran lleihau presenoldeb Nyrs Ardal.  Cafwyd buddion eraill hefyd, megis gwell ansawdd bywyd i drigolion, gwell cydweithio rhwng staff Llys y Bryn a Nyrsys Ardal a gweithlu mwy hyderus.

Bu'r prosiect peilot yn arbennig o lwyddiannus, gan herio'r cysyniad traddodiadol o wahanol grwpiau o staff yn gweithio mewn seilos.  Yr oedd yn profi bod gweithwyr gofal integredig wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at hyn.

O ganlyniad i'r prawf hwn ar gam cysyniad, yr oedd yn amlwg y gallai'r model hwn gael ei ymestyn i gynnwys ymyriadau eraill megis cofnodi arwyddion hanfodol a gofal cathetr.

Argymhellwyd hefyd bod model hyfforddiant gofal clwyfau anghymhleth yn cael ei gyflwyno fesul cam i Gartrefi eraill yr Awdurdod Lleol yn Sir Gaerfyrddin. Cynghorwyd yn gryf bod gwerthusiad effaith yn cael ei gynnwys o'r cychwyn yn ogystal â dadansoddiad ariannol o ran enillion ar fuddsoddiad.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Pan ofynnwyd a fyddai'r cyfrifoldebau ychwanegol yn cael eu hadlewyrchu yng nghyflog y staff, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig y byddai unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn cael effaith ar gyflog a byddai'n rhaid cynnal ymarferiad gwerthuso swyddi;
- Pan ofynnwyd a fyddai pobl hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain yn derbyn yr un driniaeth, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig ei bod yn bwysig cynnal y cynllun peilot mewn amgylchedd diogel, dan reolaeth, ac mai dyma pam y dewiswyd cartref gofal. Ond y bwriad yn y pen draw fyddai cyflwyno'r rhaglen yn y gymuned.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 – ADOLYGIADAU POLISÏAU A GWEITHDREFNAU YNGHYLCH CODI TÂL AR OEDOLION AM WASANAETHAU**

[SYLWER:  Roedd y Cynghorwyr H.I. Jones, M.J.A. Lewis ac E. Morgan oll wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes.]

Atgoffwyd y Pwyllgor bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i basio gan Lywodraeth Cymru a bod gwahanol rannau o'r Ddeddf bellach yn dod i rym.  Darparai'r Ddeddf y fframwaith statudol i gyflenwi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar lesiant, hawliau a chyfrifoldebau. Roedd Rhan 5 y Ddeddf yn ymwneud yn benodol â chodi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaeth am wasanaethau a dderbyniant a byddai'r rhan hon yn dod i rym ar 6ed Ebrill, 2016.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a nodai'r prif feysydd, yn benodol mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi tâl, yr oedd angen eu hystyried ar y cychwyn a chynigwyd, yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, y byddai polisi

diwygiedig newydd, a ddygai ynghyd elfennau o’r polisïau presennol, yn cael ei gyflwyno i’w gymeradwyo gan yr aelodau.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder bod y gwahanol gategorïau o ofal a fframwaith o daliadau yn anodd eu dirnad. Meddai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wrth y Pwyllgor y byddai’n rhoi eglurhad o’r pwyntiau hyn yn yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i’w ystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I’R BWRDD GWEITHREDOL bod y Diwygiadau i’r Polisïau a’r Gweithdrefnau ar gyfer Codi Tâl ar Oedolion, fel a fanylir yn yr adroddiad, yn cael eu cymeradwyo.**

**10. Y PWYLLGOR CRAFFU - GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD: Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CAMAU A GYMERWYD AC ATGYFEIRIADAU.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**11. EGLURHAD YNGHYLCH PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU.**

Nododd y Pwyllgor y rhesymau dros beidio â chyflwyno’r ddau adroddiad canlynol:-

- Gwerthusiad o Brosiectau Cronfa Gofal Canolraddol (ICF)
- Adolygiad o’r Gwasanaeth Ailalluogi

**PENDERFYNWYD nodi'r ffaith na chyflwynwyd yr adroddiadau.**

**12. COFNODION – 20FED IONAWR, 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr, 2016, gan eu bod yn gofnod cywir.**

__________________________ ____________________

**Y CADEIRYDD** **DYDDIAD**